O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2014 Rhif 3115 (Cy. 314)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Ffordd Dolfor, Y Drenewydd, Powys) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2014

Gwnaed	*17 Tachwedd 2014*
Yn dod i rym	*24 Tachwedd 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 24 Tachwedd 2014 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Ffordd Dolfor, Y Drenewydd, Powys) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2014.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 18:30 o'r gloch ar 24 Tachwedd 2014 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn o'r gefnffordd a elwir Ffordd Dolfor yn y Drenewydd yn Sir Powys sy'n ymestyn am bellter o 20 metr y naill ochr a'r llall i Bont Reilffordd Ffordd Dolfor.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar y darn o'r gefnffordd.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal na pheri na chaniatáu i unrhyw feic pedal gael ei reidio ar y darn o'r gefnffordd.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar hyd y darn o'r gefnffordd.

Cymhwyso

6. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 17 Tachwedd 2014

R Morgan

RICHARD MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.
(2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.